

CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun 1 Ieg Rhagfyr, 2023**, yng Nghanolfan Bryncroes, o 7.30 p.m. hyd 8.30 p.m.

Presennol: Y Cynghorydd Siôn Williams (Cadeirydd)

Y Cynghorydd Michael Strain (Is-Gadeirydd)

Y Cyngorwyr Carys H. Evans, Elin Hughes, Gwenan Griffiths (rhan o'r cyfarfod),
Dylan Parry Jones, Glyn Roberts, Efan Thomas, Carys E. Williams, Iwan J. Williams

Ymddiheuriadau: Y Cynghorydd Glenys Williams

Y Cynghorydd Gareth Williams (Cynghorydd Pen Draw Llŷn ar Gyngor Gwynedd)

81. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

82. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad.

83. **CADARNHAU COFNODION Y CYNGOR A GYNHALIUYD 13eg TACHWEDD, 2023**

Cyflwynwyd, cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd 13eg Tachwedd, 2023.

(Cynigiwyd gan Y Cynghorydd Glyn Roberts ac eiliwyd gan Y Cynghorydd Dylan Parry Jones gyda phawb yn cytuno).

Materion yn codi

Eitem 72 Cadarnhau Cofnodion – cymal Eitem 59 Cadarnhau Cofnodion cymal (ch) Eitem (23) Materion Ffyrdd a Llwybrau (cymal (e) – lloches bws a.y.

Diolchwyd i'r tri fu'n gosod yr hysysfyrddau i fyny yng Nghanolfan Bryncroes, Neuadd Goffa Sarn a Chongl Meinciau – Y Cyngorwyr Dylan Parry Jones, Glyn Roberts ag Iwan J. Williams.

Penderfynwyd rhoddi nodyn ymhob hysbysfwrdd i'r cyhoedd gysylltu a'r person perthnasol os yn dymuno rhoi hysbyseb i fyny yn y lleoliad hwnnw:

Canolfan Bryncroes a Neuadd Goffa Sarn – Y Cynghorydd Glyn Roberts

Canolfan Congl Meinciau – Y Cynghorydd Carys H. Evans

Eitem 74 – Materion Ffyrdd a Llwybrau

Cymal (a) – dyma atebiad y Peiriannydd Ardal Dwyfor

“Olgra, Penygroeslon/Lôn Pengopa am Bryncroes

Bydd llythyrau rhybudd gordyfiant yn cael eu hanfon i bechnogion y tir.

Tŷ Ruttan, Bryncroes

Mae'r gangen bellach wedi cael ei chlirio.

Bodnithoedd am Dai Cyngor Sarn Mellteym

Mae'r safle yma eisoes wedi ei nodi a'i ychwanegu i restr waith o safleoedd tebyg sydd yn bodoli ar ffyrdd dosbarth un a dau'r ardal. Bydd y gwaith yma'n cael sylw yn ei dro a pan mae adnoddau ar gael.”

Penderfynwyd nodi'r atebiad.

Adroddodd Y Cyngoyrdd Siôn Williams a Dylan Parry Jones eu bod wedi archwilio'r biniau halen yn y gwahanol leoliadau a'u bod yn llawn.

Tynnwyd sylw at y bocs halen ger Cellar, Botwnnog a **phenderfynwyd** gofyn i'r Adran berthnasol yng Nghyngor Gwynedd am gael ei lenwi.

Cymal (2) – Tan y Ffordd, Penygroeslon

Derbyniwyd ymateb pellach gan berchennog Tan y Ffordd fod ei frawd wedi torri'r tyfiant. Gan nad oedd yr aelodau yn hapus **penderfynwyd** anfon unwaith yn rhagor at y Peiriannydd Fyrdd yn tynnu sylw at y diffyg gwelediad sydd ar gyffordd Siop Lwyd, Penygroeslon, oherwydd y tyfiant.

Eitem 80 – Goleuadau Nadolig

Derbyniwyd ymateb gan Mel ab Owain o Un Llais Cymru yn nodi fod gan y Cyngor bŵer o dan Adran 137 i osod coeden a goleuadau Nadolig, ond pwysleisai fod angen hysbysu'r Cwmni Yswiriant er sicrhau fod gan y Cyngor yswiriant digonol ar gyfer hyn. Gan ei bod yn rhy hwyr i wneud dim ynglyn a chael coeden/addurniadau Nadolig ar gyfer eleni **penderfynwyd** trafod hyn ym mis Hydref 2024 ac hefyd holi'r Cwmni Yswiriant ym mis Mai pan yn adeg adnewyddu'r polisi.

84. CEISIADAU CYNLLUNIO

Nid oedd unrhyw gais i law.

85. MATERION FFYRDD A LLWYBRAU

Penderfynwyd tynnu sylw Peiriannydd Ardal Dwyfor at gyflwr gwael y ffordd i lawr o Benybryn heibio Tai Lon am bentref Sarn.

86. AWDURDOD I DALU

Penderfynwyd awdurdodi'r taliadau a ganlyn:

Cyllid a Thollau EM £105 (siec 200804)

Y Clarc £420 (siec 200805)

(Bu'r Clarc ymadael a'r ystafell tra trafodwyd y cyflog)

Yn y cyswilt hwn :

- a) Diolchodd y Clarc i'r Cynghorydd Carys H. Evans am ei helpu unwaith yn rhagor gyda'r feddalwedd talu cyflog/Cyllid a Thollau EM.
- b) Tynnodd y Clarc sylw i gosb arall o £200 gael ei dderbyn gan Gyllid a Thollau EM ond iddi gael gair â swyddog o'r enw Paul (wedi cael ei thafu o adran i adran) ac iddi egluro iddo fod apêl wedi ei hanfon atynt yn dilyn cosb cynt o £100. Dywedodd y Swyddog am i'r Cyngor beidio talu'r £200 hyd bydd penderfyniad wedi cael ei wneud ar yr apêl flaenorol.

Penderfynwyd nodi'r uchod a gweithredu'n unol a'r cyfarwyddiadau a dderbyniwyd gan y Swyddog o Gyllid a Thollau EM.

87. GWAHODD TENDRAU

Penderfynwyd gwahodd tendrau am farbio tiroedd y Cyngor drwy roi hysbyseb yn rhifyn mis Ionawr o Llanw Llyn. Penderfynwyd ymhellach fod yr un telerau a'r flwyddyn bresennol 2022/23 i aros fel ac y maent.

88. CYFEILLION LLYN

Adroddodd y Cadeirydd ar y sefyllfa ddiweddaraf o berthynass i'r Prosiect perthyn Llywodraeth Cymru gwarchod y Gymraeg a'i helpu i ffynnu. Cyflwynwyd:

- a) Llythyr gan Sian Parri (Cydllynydd Prosiect Perthyn Llŷn) – copi yn rhan o'r cofnodion.
- b) Datganiad ar ran y Cyngor eu bod yn "dynodi ardal o fewn ffiniau'r Cyngor yn Ardal o Arwyddocad Ieithyddol (dwysedd uwch)." **Awdurdodwyd** y Cadeirydd, Y Cynghorydd Siôn Williams, i arwyddo'r datganiad ar ran y Cyngor.
(Copi o'r datganiad yn rhan o'r cofnodion)
- c) Datganiad y Cadeirydd, Y Cyngorydd Siôn Williams, i'r Wasg ynglyn a pholisi iaith sydd mewn grym gan y Cyngor "sydd yn gosod, gwarchod a chynyddu defnydd o'r

Gymraeg" a'r nôd strategol" sydd gan y Cyngor. **Awdurdodwyd** y Cadeirydd, Y Cynghorydd Siôn Williams, i arwyddo'r datganiad ar ran y Cyngor. (Copi o'r datganiad yn rhan o'r cofnodion).

ch)**Awdurdodwyd** y Cadeirydd i arwyddo llythyr at Gyfarwyddwyr Cae Capel Cyf. (Copi o'r llythyr yn ffurfio rhan o'r cofnodion).

89. **ASTUDIO DRWY'R GYMRAEG**

(a) Tynnwyd sylw gan Y Cynghorydd Gwenan Griffiths at y pryderon sydd oherwydd y cwtogi yn yr oriau sydd ar gael i blant uniaith Saeseg gael mynediad i'r Uned Iaith yn Llanybi. Yn ôl a ddeallwyd 'roedd Ysgol Pont y Gof yn gallu anfon y plant hyn yn syth i'r Uned Iaith ond erbyn hyn mae yna restr aros am le yno. Honnir fod hyn yn newid iaith y flwyddyn.

Penderfynwyd anfon at Arweinydd Addysg Cyngor Gwynedd yn gofyn pam fod y gwasaneth yn yr Uned Iaith wedi ei chwtogi – mae hyn yn cael effaith pellgyrhaeddol nid yn unig ar y plentyn ond hefyd yr athro a'r disgyblion hyn yn enwedig (blynyddoedd 3 - 6).

Ymhellach penderfynwyd awgrymu i'r Arweinydd, tybed a ddylid ysytried cynnal digwyddiadau i'r teuluoedd sydd wedi symud i'r ardal i fyw er cyflwyno'r iaith a'r diwylliant Cymreig iddynt.

Yna penderfynwyd gofyn i Brifathrawes Ysgol Pont-y-Gof anfon llythyr at y Cyngor hwn yn mynegi ei phryder ynglyn a'r sefyllfa fel y gall y Cyngor gael cefnogaeth i'w anfon at yr Arweinydd Addysg.

(b) Cyflwynwyd e-bost gan Y Cynghorydd Richard Glyn Roberts yn gofyn am gefnogaeth i warchod y Gymraeg yn ein hysgolion - 'roedd wedi anfon copi o lythyr i'w anfon at y Pennaeth Addysg fel a ganlyn:

"Ysgrifennwn atoch fel Cyngorau Cymuned Llŷn ac Eifionydd i bwysu arnoch i ail-lunio Polisi Iaith Ysgolion Gwynedd.

Rydym yn anfodlon â chategori cyfredol ein hysgolion a'r polisi iaith cyfredol y mae'r Sir wedi ei lunio ar gyfer ein hysgolion. Mae'r polisi wedi dyddio'n arw yn sgil y drefn gategoreiddio newydd ac nid yw'r polisi na chategori yr ysgolion yn rhoi cynhaliaeth ddigonol i'r Gymraeg. Nid yw categori'r ysgol na'r polisi yn gofalu bod plant yn gwneud canran helaeth o'u haddysg trwy'r Gymraeg ac mae'n rhwyddhau'r ffordd i blant ddewis gwneud eu haddysg drwy gyfrwng y Saesneg. Mewn theori, ar wahan i'r Gymraeg fel pwnc, gall 40% o blant y Sir osgoi addysg cyfrwng Cymraeg. Ar gyfer ardal fel Llŷn ac Eifionydd, mae'r sefyllfa hon yn gwbwl annerbyniol ac yn fygythiad i barhad y gwareiddiad Cymraeg.

Mae polisi iaith cadarn ar gyfer ein hysgolion yn allweddol i ddiogelu dyfodol ein hiaith. Ni ddylai'r polisi beryglu ei dyfodol. Pwyswn arnoch i ddynodi ein hysgolion yn rhai Cymraeg penodedig ac ail-lunio'r polisi iaith, gan ddiolch ichi ymlaen llaw am eich ymdrechion yn gweithredu ar fater mor dyngedfenol bwysig."

Penderfynwyd anfon y llythyr ymlaen at y Bennaeth yr Adran Addysg.

Wrth derfynu'r cyfarfod dymunodd y Cadeirydd Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i'r aelodau a'u teuluoedd.



Botwnnog

Ardal o Arwyddocâd Ieithyddol (dwysedd uwch)

Annwyl Gynghorwyr Cyngor Cymuned Botwnnog,

Diolch i chi am eich cefnogaeth a'ch penderfyniad i ddynodi Botwnnog yn 'Ardal o Arwyddocâd Ieithyddol (dwysedd uwch)'.

Anfonaf atoch ddiweddariad am y prosiect Perthyn.

Mi gynhaliwyd noson yn y Ganolfan yn Llangwnnadr i lansio'r prosiect. Bydd adroddiad bur am y noson yn y Llanw.

Mae eich penderfyniad i ddynodi Botwnnog yn 'Ardal o Arwyddocâd Ieithyddol (dwysedd uwch)' yn atgyfnerthu eich Nod Strategol o 'warchod a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg'.

Anfonaf atoch gopi o'r tystysgrif a gafodd ei arwyddo gan Gyngor Cymuned Aberdaron ar wythnos ddiwethaf. Wrth i chi arwyddo heno ar 11/12/23 byddwch yn cadarnhau dynodi ward Pen Draw Llŷn yn ei chyfanrwydd yn 'Ardal o Arwyddocâd Ieithyddol (dwysedd uwch)' ar ddiwrnod Llywelyn Ein Llyw Olaf.

Bydd y dynodiad yn cael ei gyhoeddi fory ar wefan newydd o dan yr enw gwynedd.cymru lle byddwn yn gofyn am gefnogaeth a chydweithrediad pawb a byddwn hefyd yn galw am fwy o reolaeth ac adnoddau i wneud penderfyniadau yn lleol fydd yn sefydlogi a chryfhau'r Gymraeg yn unol a nod y prosiect Perthyn yn Llŷn

Nodau'r prosiect Perthyn yn Llŷn.

- Cryfhau'r Gymraeg yn Llŷn a chyflwyno ei hanes i Gymru a'r byd.
- Datblygu cynlluniau tai fforddiadwy fydd yn cryfhau'r Gymraeg yn Llŷn.
- Creu cyfleoedd newydd i'r Gymraeg a sefydlu twristiaeth gynaliadwy ffyniannus fydd yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg yn y dyfodol.

Nadolig Llawen i chi i gyd,

Sian Parri (Cydlunydd prosiect Perthyn, Llŷn)



Ardal o Arwyddocâd Ieithyddol (dwysedd uwch),

Mae papur safbwynt y 'Comisiwn Cymunedau Cymraeg' yn argymhell dynodi'r ardaloedd lle mae'r canran uchaf o siaradwyr Cymraeg yn 'Ardal o Arwyddocâd Ieithyddol (dwysedd uwch)', er mwyn gallu amrywio polisi cyhoeddus a gweithredu o blaid y Gymraeg a'i chryfhau fel iaith gymunedol.

Ar sail tystiolaeth Cyfrifiad 2021 Llywodraeth Cymru ac argymhelliad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg mae Cyngor Cymdeithas Botwnnog yn dynodi ardal o fewn ffiniau'r Cyngor yn 'Ardal o Arwyddocâd Ieithyddol (dwysedd uwch)'

Arwyddwyd
Cadeirydd.....

S. Williams ar ran Cyngor Cymdeithas Botwnnog

Dyddiad : 11eg Rhagfyr, 2023.

Drwy'r dynodiad yma rydym yn :-

Dwad o dan ambarél y dynodiad, er mwyn galw ar y llywodraethau am fwy o reolaeth ac adnoddau i wneud penderfyniadau lleol er mwyn cryfhau'r Gymraeg fel iaith gymunedol.

Atgyfnerthu ein Nod Strategol o 'warchod a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg'.

Datgan ein cefnogaeth i safbwynt ac argymhellion y 'Comisiwn Cymunedau Cymraeg'.

Datganiad Sion Williams Cadeirydd Cyngor Cymuned Botwnnog

11 /12 /23 Ddydd Llywelyn.

Mae gan Gyngor Cymuned Botwnnog bolisi iaith sydd yn gosod gwarchod a chynyddu defnydd o'r Gymraeg yn Nod Strategol ein Cyngor, ond mae'r iaith yn gwanio yma bob dydd.

Mi yda ni wedi clywed gan ein Cyngh. Gareth Williams am y drafodaeth am yr iaith mewn cyfarfod o Gyngor Gwynedd ar y 7fed o Ragfyr 2023 lle roedd arweinwyr y Cyngor yn gwadu realiti'r sefyllfa yma'n llwyr. Erbyn hyn does gen i ddim hyder yng ngallu Cyngor Gwynedd i warchod y Gymraeg yma ym Motwnnog.

Enghraifft o'r ddifyg ydi'r ffaith fod y Cynllun Datblygu Lleol wedi nodi safle addas i 21 tŷ ym Motwnnog, tra mae ymchwiliad Hwyluswyr Tai Gwynedd yn profi mai dim ond 4 o bobl leol, sydd ar y rhestr aros. Pa iaith fydd y gweddill yn ei siarad felly.

Ond yn waeth fyth dyda ni ddim hyd yn oed yn gwybod be ydi gallu ieithyddol y 4 'person lleol' sydd ar y rhestr am nad oes hyd yn oed drefn yn ei lle i ofyn y cwestiwn.

Does dim ystyriaeth chwaith i'r ffaith fod gosod un person di-Gymraeg yng nghanol lluo o bobl rugl ddwyieithog, mewn sefyllfa gymdeithasol gymunedol Gymraeg, yn golygu fod yn rhaid i ni droi i'r Saesneg a gildio'r Gymraeg yn gyfangwbl, mae o yn digwydd yma rwan.

Mae'n rhaid cydnabod ffeithiau fel hyn, os oes gobaith o ffurfio polisïau effeithiol a gweithredu i gryfhau'r Gymraeg neu does yna ddim gobaith y bydd yna filiwn o siaradwyr erbyn 2050.

Mi ydw i yn falch o'n penderfyniad i ddynodi Botwnnog yn Ardal o Arwyddocâd Ieithyddol (dwysedd uwch), ar sail tystiolaeth Llywodraeth Cymru ac ar argymhelliad y Comisiwn Cymunedau Gymraeg. Drwy hyn mi yda ni yn ymuno efo Cyfeillion Llŷn o dan faner y prosiect Perthyn i edrych ar bosibiliadau gosod amod iaith ar ddatblygiadau tai ac unrhyw ffordd arall y medrwn i gryfhau'r Gymraeg yma ym Motwnnog.

Er mwyn dechra edrych ar bolisiau a chynlluniau lleol mi fyddwn angen adnoddau a rheolaeth i wneud penderfyniadau. Mi fyddwn yn cefnogi cais Cyfeillion Llŷn i ofyn i Gyngor Gwynedd a Llywodraeth Cymru am ganran resymol o arian y premiwm ail gartrefi a threthi'r diwydiant twristiaeth yn ei ôl, i gael ei ddefnyddio i dalu am y gwaith o sefydlogi a chryfhau'r Gymraeg yn Llŷn.

Rydym yn cefnogi nod ac amcanon y prosiect 'Perthyn i Llŷn'

- Cryfhau'r Gymraeg yn Llŷn a chyflwyno ei hanes i Gymru a'r byd.
- Datblygu cynlluniau tai fforddiadwy fydd yn cryfhau'r Gymraeg yn Llŷn.
- Creu cyfleoedd newydd i'r Gymraeg a sefydlu twristiaeth gynaliadwy ffyniannus fydd yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg yn y dyfodol.

Cefnogi camau Cymreigio gweithredu Cymdeithas Penygraiq a Chyfeillion Llŷn o dan Prosiect Perthyn i Llŷn -

Ymchwilio i bosibiliadau sefydlu cytundebau 'Polisi Gosodiadau a Gwerthiannau' lleol fydd yn codi niferoedd y siaradwyr Cymraeg.

Ymchwilio i bosibiliadau gwneud Cynlluniau Lle.

Gweithio'n agos efo'r ysgolion i wneud ymchwiliadau iaith bro

Ymchwil i wedd Gymraeg, gweithgareddau a gwasanaethau Cymraeg yn ein Cymunedau.

Edrych ar bosibiliadau cynnal mwy o weithgareddau uniaith Gymraeg, fydd yn ysgogi siaradwyr newydd i lwyddo a bod yn aelodau cyflawn o gymuned Gymraeg.

Cefnog busnesau a sefydliadau i ddarparu gwasanaeth Cymraeg neu ddwyieithog.

Cefnogi ein cymunedau i estyn yr un un Croeso Cymraeg, ac a gafodd yr Eisteddfod Genedlaethol, i ymwelwyr Llŷn yn y dyfodol.

Cyflwyno hanes y genedl a'r Gymraeg mewn ysgolion ac i oedolion yn y cymunedau.

Parhau efo gwaith o sefydlu cynllun cymhathu cynhwysfawr fydd yn dwad ar garfan o bobl ddwyieithog Gymraeg a Saesneg at eu gilydd, efo'r bobl uniaith Saesneg a'r siaradwyr Cymraeg newydd i gyd at eu gilydd i achub y Gymraeg o borth marwolaeth.

Cadeirydd Cyngor Cymuned Botwnnog

Dwyfach,
Sarn
Pwllheli
LL53 8D7
11/12/23

Annwyl Gyfarwyddwyr Cae Capel Cyf,

Anfonaf atoch ar ran Cyngor Cymuned Botwnnog.

Yn ein cyfarfod ar y 13eg o Dachwedd anfonwyd atom ohebiaeth gan Gyfeillion Llŷn a oedd yn cyflwyno gwybodaeth berthnasol i effaith bosib datblygiad Cae Capel ar y Gymraeg ym Motwnnog. Cyflwynaf i chi gefndir ein trafodaeth mewn datganiad gen i ar wahan.

Penderfynwyd gofyn i chi dwad i drafod efo ni bosibiliadau sefydlu 'Polisi Gosodiadau a Gwerthiannau Lleol' ar ddatblygiad Cae Capel. Efallai y byddai modd trafod ac ystyried posibiliadau fel defnydd cymysg o dai rhent a thai i'w gwerthu ac ella tai un llawr addas i un neu ddau berson. Gellid ystyried gwireddu'r datblygiad dros gyfnodau o amser mewn dau ran efallai, gan asesu'r effaith ar y gymuned a'r Gymraeg drwy gydol y datblygiad. Gellir ystyried trefn a fyddai'n rhoi rheolaeth dros recriwtio tenantiaid neu brynwyr fydd yn siaradwyr Cymraeg lleol, gyda amod iaith ar y datblygiad neu drwy ddefnyddio ein gwybodaeth a chyswllt lleol ni fel Cyngorwyr efallai.

Byddai gwneud cytundeb 'Polisi Gosodiadau a Gwerthiannau Lleol' efo amod iaith Gymraeg yn rhan ohono yn cyd-fynd a nod Llywodraeth Cymru o 'warchod y Gymraeg a'i helpu i ffynnu' yn yr ardaloedd lle mae nifer uchel o ail gartrefi. Byddai'n gysail cadarnhaol i ardaloedd eraill ac yn cynorthwyo Llywodraeth Cymru efo 'Cymraeg 2050: Filiwn o siaradwyr', 'Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg' a 'Chynllun Peilot Dwyfor' a hefyd 'Prosiect Perthyn i Llŷn' a'n Polisi Iaith ni ein hunain yng Nghyngor Cymuned Botwnnog.

Rydym yn anfon copi o'r ohebiaeth yma at Gyfeillion Llŷn a gyflwynodd y posibilrwydd yma i ni. Rydym hefyd yn cydweithio efo Gyfeillion Llŷn ar y gwaith ymgynghori ac ymchwil ar y prosiect Perthyn sydd yn helpu cymunedau i gryfhau'r Gymraeg.

Felly rydym yn gofyn am am eu cefnogaeth nhw wrth fynd ymlaen i'r cam nesaf, os y byddwch yn fodlon agor trafodaeth efo ni.

Ar ran Cyngor Cymuned Botwnnog.

Sion Williams(Cadeirydd Cyngor Cymund Botwnnog)

Copi - Sian Parri.

Gareth Williams.

